**EITEM AR YR AGENDA: 10**

# AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

**20 Mawrth 2017**

**YMATEB MEDDYGOL BRYS**

**Adroddiad gan Richard Fairhead, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol**

## Diben yr Adroddiad

1. Rhoi gwybod i'r Aelodau am faterion sy'n datblygu mewn perthynas â ffrydiau gwaith y Cyd-Gyngor Cenedlaethol (NJC) ar gyfer Brigadau Tân Awdurdodau Lleol i gefnogi gweithgareddau mwy amrywiol ar gyfer diffoddwyr tân.

## Cefndir

2. Bydd yr Aelodau'n ymwybodol fod y Cyd-Gyngor, oddeutu 18 mis yn ôl, wedi dechrau nifer o ffrydiau gwaith i geisio amrywio rôl diffoddwyr tân. Un ffrwd waith allweddol yw darparu ymateb meddygol brys (EMR) neu gyd-ymateb gyda'r gwasanaeth ambiwlans i gategorïau penodol o argyfwng meddygol. Cytunodd Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru i gymryd rhan mewn cynllun cenedlaethol i dreialu ymateb meddygol brys. Dechreuodd y cynllun treialu yn hydref 2015 a bu'n rhedeg tan 28 Chwefror 2017.

## Gwybodaeth

3. Ym mis Mehefin 2016, comisiynodd y Cyd-Gyngor ymchwilwyr dan arweiniad yr Athro Julia Williams o Brifysgol Swydd Hertford i werthuso'r gwaith cyd-ymateb a wnaed ers 2015, gan gynnwys data gan y rhai sydd wedi cymryd rhan yn y cynlluniau treialu a gan awdurdodau tân sy'n gwneud y math hwn o waith.

4. Ar ôl y gwaith gwerthuso, lluniwyd adroddiad (gweler atodiad 1), a gyhoeddwyd ar 28 Chwefror 2017. Mae cynnwys yr adroddiad a'r canfyddiadau wrthi'n cael eu dadansoddi gan y Cyd-Gyngor.

5. Mae Undeb yr FBU yn bwriadu trafod ei ffordd o ymdrin â chyd-ymateb, mewn cynhadledd ar 21 Mawrth 2017. Disgwylir y daw rhagor o eglurder am ddyfodol hyn a ffrydiau gwaith eraill yn dilyn y gynhadledd.

6. Er bod cyfnod y cynllun treialu ffurfiol wedi dod i ben, bydd yr aelodau'n dymuno bod yn ymwybodol fod y gorsafoedd a fu'n cymryd rhan yn y cynllun yn parhau i ddarparu gwasanaethau ymateb meddygol brys am y tro.

**Argymhelliad**

7 Bod yr Aelodau'n

(i) nodi'r sefyllfa sy'n datblygu ar lefel genedlaethol;

(ii) cydnabod bod trefniadau lleol yn parhau am y tro, ond efallai y bydd canlyniad cynhadledd adalw ar 21 Mawrth 2017 yn effeithio ar hyn.